

# Cofnodion



## Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Partneriaethau

---

Dyddiad: Dydd Mercher, 6 Rhagfyr 2023

Amser: 5.00 pm

Bresennol: Cynghorwyr E Stowell-Corten (Cadeirydd), B Davies, P Drewett, F Hussain ac A Screen

Yn bresennol: Sally Ann Jenkins (Cyfarwyddwr Strategol – Gwasanaethau Cymdeithasol), Finn Madell (Pennaeth Diogelu), Amy Thomas (Ymgynghorydd Arweiniol Rhanbarthol VAWDASV), Neil Barnett (Ymgynghorydd Craffu), Katharine Majer (Dirprwy Reolwr Democrataidd a Gwasanaethau Etholiadol), Emily Mayger (Swyddog Llywodraethiant) a Taylor Strange (Swyddog Llywodraethiant)

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr C Baker-Westhead, J Jones, A Morris, M Pimm and K Whitehead

---

### 1 Datganiadau o ddiddordeb

Dim.

### 2 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2023 yn gofnod gwir a chywir.

### 3 Strategaeth Ranbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) 2023-2027

Gwahoddedigion:

- Sally Anne Jenkins - Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol
- Finn Madell - Pennaeth Diogelu Corfforaethol
- Amy Thomas - Ymgynghorydd Arweiniol Rhanbarthol VAWDASV

Rhoddodd yr Ymgynghorydd Arweiniol Rhanbarthol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) drosolwg o'r adroddiad.

Gofynnodd y Pwyllgor y canlynol:

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y term "Mudiad Rhanbarthol" a ddefnyddir wrth ddatblygu'r Strategaeth. Eglurodd yr Ymgynghorydd Arweiniol fod materion staffio wedi arwain at ddiffyg casglu a dadansoddi data. Yn ogystal, cafodd newidiadau yn y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod y cyfnod hwnnw effaith.
- Roedd y Pwyllgor eisiau gwybod canran y troseddau cam-drin domestig a adroddwyd a ddigwyddodd yng Nghasnewydd, gan ystyried amrywiadau rhanbarthol. Cydnabu'r

Ymgynghorydd Arweiniol y cais a soniodd fod data a gasglwyd gan Heddlu Gwent yn cyfyngu ar y gallu i ymchwilio'n ddyfnach i'r broses o gasglu data.

- Holodd y Pwyllgor ddefnyddioldeb i bartneriaethau fod yn ymwybodol o wahaniaethau yn nifer yr achosion o gategoriâu VAWDASV penodol o fewn ardaloedd. Eglurodd yr Ymgynghorydd Arweiniol fod cadarnhau gwahaniaethau o'r fath yn heriol oherwydd amrywiadau o ran casglu a chategoreiddio data gan bob awdurdod lleol (ALI). Pwysleisiodd y Pennaeth Diogelu Corfforaethol yr angen am ymwybyddiaeth o ddadansoddi data ond blaenoriaethodd ddiwallu anghenion gwasanaethau.
- Holodd y Pwyllgor am gyfanswm y gyllideb sydd ar gael. Dywedodd yr Ymgynghorydd Arweiniol am y cyllid gan Lywodraeth Cymru a chyfraniadau gan bartneriaid a oedd ar gael, gan nodi bod grantiau cyllid yn cael eu rhoi ar gyfer prosiectau penodol. Fodd bynnag, roedd cyllid parhaus ar gyfer prosiectau a gefnogir yn heriol oherwydd argaeledd blynyddol ac uniad ffynonellau ariannu.
- Gofynnodd y Pwyllgor am ddyraniadau cyllid yn y dyfodol. Nododd yr Ymgynghorydd Arweiniol y byddai cyllid yn cael ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion dioddefwyr, a oedd yn newid yn flynyddol. Gwnaethant ddarparu enghreifftiau o brosiectau a ariannwyd yn flaenorol a nodwyd y cyfyngiadau wrth adennill costau. Esboniodd Cyfarwyddwr Strategol y Gwasanaethau Cymdeithasol yr heriau o bennu cyfrifoldebau cyllido a chael eu hystyngiadau rhwng grantiau cyllido yn y maes hwn.
- Mynegodd y Pwyllgor bryderon am y model ariannu. Amlygodd y Cyfarwyddwr Strategol yr anawsterau yn yr hinsawdd ariannol bresennol, yn enwedig wrth weithio mewn meysydd lle mae llawer o bobl yn agored i niwed gydag effeithiau hirdymor. Ategodd yr Ymgynghorydd Arweiniol y pryderon hyn a soniodd nad oedd y ddibyniaeth ar grantiau byrdymor yn unigryw i'r rhanbarth. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru (LIC) wedi datblygu ffrwd waith glasbrint ar gyfer cyllid cynaliadwy ond roeddent yn cydnabod y byddai ei gyflawni yn cymryd amser.
- Cydnabu'r Pwyllgor y ffocws diweddar ar VAWDASV a gobeithiodd, wrth iddo ddod yn fwy sefydledig, y byddai gwell strwythur o ran cyllid.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar ffynhonnell rhagfarn ddarwybod mewn perthynas â dioddefwyr gwrywaidd wrth ystyried croestoriadedd. Eglurodd yr Ymgynghorydd Arweiniol fod y rhagfarn yn systematig, gan fod systemau wedi'u sefydlu'n draddodiadol o blaid menywod. Gwnaethant bwysleisio pwysigrwydd cynrychioli dynion wrth adrodd am niwed.
- Cydnabu'r Pwyllgor yr anfantais a brofir gan gymunedau o gefndiroedd amrywiol mewn perthynas â cham-drin domestig. Gofynnodd nhw am y gefnogaeth a roddwyd i fenywod o'r cefndiroedd hyn i'w helpu i fyw'n annibynnol. Nododd yr Ymgynghorydd Arweiniol fod y gefnogaeth yn cynnwys gweithio gyda darparwyr arbenigol ac argaeledd cyllid LIC i'r rheini heb fynediad at arian cyhoeddus. Gwnaethant hefyd dynnu sylw at bwysigrwydd darparu gwasanaethau yn iaith gyntaf y dioddefwr/goroeswr a hwyluso eu hintegreiddiad i'r gymuned newydd.
- Gofynnodd y Pwyllgor a oedd dioddefwyr yn cael eu hannog i fanteisio ar gyrsiau iaith i wella eu hannibyniaeth. Dywedodd yr Ymgynghorydd Arweiniol y byddai angen cadarnhad gan staff rheng flaen ond nododd gysylltiadau â cholegau lleol a dosbarthiadau cymunedol ar gyfer dysgu Saesneg.
- Holodd y Pwyllgor am y berthynas uniongyrchol rhwng digwyddiadau ac ardaloedd o amddifadedd. Nododd yr Ymgynghorydd Arweiniol, er y gallai hyn fod wedi digwydd yn y gorffennol, mae pwysau cynyddol wedi effeithio ar bobl o bob cefndir. Ychwanegodd y Pennaeth Diogelu Corfforaethol fod mwy o hyrwyddo wedi arwain at

gynnydd mewn adrodd, gyda mwy o ffocws ar ddangosyddion cynnil trwy ymgyrchoedd fel IAWN gan LIC.

- Nododd y Pwyllgor y pwysau cynyddol yn y sector tai a'i effaith bosib ar VAWDASV. Pwysleisiodd yr Ymgynghorydd Arweiniol y berthynas gref rhwng Tai a VAWDASV ar gyfer dioddefwyr a chyflawnwyr. Nododd y prinder mewn mannau lloches a'r angen am gefnogaeth ddigonol, gan dynnu sylw at wahaniaethau mewn amserlenni ariannu ar gyfer tai.
- Holodd y Pwyllgor am gynnwys mewnbwn gan ddioddefwyr a goroeswyr yn yr adroddiad. Nododd yr Ymgynghorydd Arweiniol grwpiau goroesi dioddefwyr amrywiol sy'n rhan o sefydliadau a darparwyr gwahanol. Gwnaethant nodi'n benodol y cyfarfodydd gyda'r grŵp goroeswyr sefydledig a gefnogwyd gan Heddlu Gwent am eu mewnbwn. Nododd yr Ymgynghorydd Arweiniol hefyd gyfathrebu rheolaidd â grŵp Heddlu Gwent ar gyfer prosiectau llai.
- Canmolodd y Pwyllgor yr adroddiad a rheoli'r bartneriaeth amlasiantaethol. Gofynnnon nhw am sut y cafodd y nifer fawr o asiantaethau dan sylw eu trin. Eglurodd yr Ymgynghorydd Arweiniol fod Tîm Rhanbarthol VAWDASV yn rheoli'r perthnasoedd, gan sicrhau cynrychiolaeth gan bob asiantaeth mewn cyfarfodydd, themâu neu grwpiau.
- Cydnabu'r Pwyllgor y byddai effeithiau cadarnhaol mwy o addysg yn cymryd amser i'w hamlygu a gofynnodd am y berthynas â'r sector addysg. Rhoddodd yr Ymgynghorydd Arweiniol wybod i'r Pwyllgor am yr Is-grŵp Dull Rhanbarthol Cyfan, a oedd yn cynnwys cydlynwyr ysgolion i sicrhau bod canllawiau LIC yn berthnasol ac wedi'u teilwra i ysgolion unigol.
- Amlygodd y Pwyllgor adroddiad yn nodi bod 1 merch o oed ysgol o bob 3 yn credu na fyddai ysgolion yn cymryd honiadau o ddifrif. Gofynnnon nhw am y camau a gymerwyd gan athrawon, aelodau bwrdd yr ysgol, a staff. Nododd yr Ymgynghorydd Arweiniol sesiynau hyfforddi addysg pwrpasol ar gyfer athrawon a chefnogaeth wrth ymateb i bryderon a honiadau drwy gydweithio rhwng Is-grŵp Dull Addysg Gyfan, Swyddogion Diogelu Addysg, Arweinwyr Diogelu Dynodedig, a Gofal Bugeiliol. Gwnaethant bwysleisio cynnwys casineb at fenywod ac aflonyddu fel maes ffocws am y pedair blynedd nesaf ac ymrwymiad yr awdurdod lleol i roi cefnogaeth a pholisïau ar waith. Soniodd y Pennaeth Diogelu Corfforaethol am Staff Addysg ymroddedig yn yr Hyb i gefnogi athrawon.
- Mynegodd y Pwyllgor bryder am y diffyg adborth gan ddynion a gofynnodd am ddarpariaethau lloches i ddynion ac ymdrechion i'w hannog i ddod ymlaen. Nododd yr Ymgynghorydd Arweiniol absenoldeb lloches i ddynion yn y rhanbarth ond soniodd am gydweithio â phrosiect Dyn i sicrhau hygyrchedd a chynrychiolaeth i ddynion. Gwnaethant hefyd dynnu sylw at sefydlu Is-grŵp newydd i sicrhau cynrychiolaeth o'r holl nodweddion gwarchoddedig.
- Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch ymddygiad rheolaethol a gorfodol mewn ysgolion a gofynnodd a oedd gwybodaeth yn cael ei darparu i helpu plant oed ysgol i adnabod ymddygiadau o'r fath. Nododd yr Ymgynghorydd Arweiniol y rhaglen Sbectrwm a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a ddarperir gan athrawon i gyflawni amcanion y cwricwlwm. Mae Sbectrwm yn gweithio gyda disgyblion o 3 i 18 oed, gan ddarparu sesiynau penodol ar bynciau perthnasol. Nododd yr Ymgynghorydd Arweiniol gynlluniau i gefnogi gwaith Sbectrwm drwy ymgyrchoedd a chefnogaeth ychwanegol.
- Holodd y Pwyllgor am y cysylltiad rhwng normau cymdeithasol o ran defnyddio cyffuriau ac alcohol a chyflawni trais domestig, a sut y gellid mynd i'r afael â hyn.

Roedd yr Ymgynghorydd Arweiniol yn cydnabod, er na ellid datgan cysylltiad uniongyrchol, bod llawer o gyflawnwyr yn yfed alcohol yn rheolaidd, gan gynnwys y rheini â phroblemau dibyniaeth. Nodwyd cydweithio â'r Bwrdd Cynllunio Camddefnyddio Sylweddau i bennu ffactorau achosol a datblygu ymatebion priodol.

- Nododd y Pwyllgor effaith gadarnhaol ymgyrchoedd a hysbysebion sy'n annog unigolion i adrodd am ymddygiad yn eu ffrindiau. Roeddent yn pwysleisio bod mwy o hysbysebion o'r fath yn grymuso pobl i godi llais.

Diolchodd y Pwyllgor i'r swyddogion am fod yn bresennol.

### **Casgliadau**

- Nododd y Pwyllgor Strategaeth Ranbarthol VAWDASV Gwent 2023-2027 a chymeradwyodd ei chynnwys. Roedd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r gwaith enfawr a wnaed i lunio'r strategaeth ac roedd yn dymuno llongyfarch yr holl swyddogion dan sylw. Canfu'r Pwyllgor hefyd fod yr adborth a oedd wedi'i gynnwys gan oroeswyr yn hynod o ddefnyddiol a chraff.
- Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed am yr ymgyrch Sbectrwm. Gwnaethant sylw bod oedolion ifanc yn fwy tebygol o wrando ac ymgysylltu pan ofynnwyd iddynt yn yr ysgol a siaradwyd â nhw ar eu lefel nhw. Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd strategaethau cyfathrebu effeithiol i gysylltu ag oedolion ifanc.
- Mynegodd y Pwyllgor bryder am y model ariannu ar gyfer y gwasanaeth hwn a phwysleisiodd yr angen am gyllid cynaliadwy, er mwyn sicrhau nad yw'r bobl sy'n dibynnu ar y gwasanaeth yn mynd hebdo.
- Gofynnodd y Pwyllgor am i ddolenni'r ymgyrch 'lawn' gael eu hanfon atynt a nododd y camau cadarnhaol wrth gydnabod dynion fel dioddefwyr cam-drin domestig, o ganlyniad i ymgyrchoedd addysgol o'r fath. Yn ogystal, gofynnodd y Pwyllgor am gael gweld yr adroddiad terfynol, gan gynnwys yr animeiddiadau, unwaith y bydd wedi'i gwblhau.
- Gofynnodd y Pwyllgor am ddadansoddiad o'r ffigurau ar dudalen 27 yr adroddiad ar lefel rhanbarthol, sirol a ward i gael dealltwriaeth gynhwysfawr o'r data.

## **4 Adroddiad Cynghorydd Craffu**

Gwahoddedig:

- Neil Barnett – Ymgynghorydd Craffu

### **a) Diweddariad ar y Flaenraglen waith (Atodiad 1)**

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Craffu'r Flaenraglen Waith, a rhoddodd wybod i'r Pwyllgor am y pynciau a oedd i'w trafod yn y ddau gyfarfod pwyllgor nesaf:

#### **Dydd Mercher 7 Chwefror 2024, yr eitemau ar yr agenda;**

- Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Bwrdd Cynllunio Ardal

Nododd yr Ymgynghorydd Craffu i'r Pwyllgor y byddai adroddiad Gwasanaethau Cymorth Rhanbarthol i Ysgolion SenCom nawr yn mynd gerbron y Pwyllgor i'w drafod tua mis Mehefin neu fis Gorffennaf 2024.

**Dydd Mercher 28 Chwefror 2024, yr eitemau ar yr agenda;**

- Y Diweddraf am Bartneriaeth Barnardo's Casnewydd

**b) Cynllun Gweithredu (Atodiad 2)**

Rhoddodd yr Ymgynghorydd Craffu ddiweddariad i'r Pwyllgor ar yr un cam ymadawol mewn perthynas ag Adroddiad Terfynol Cynllun Lles Casnewydd yn Un, a'u hysbysu bod yr wybodaeth wedi'i hanfon at Bartneriaeth Casnewydd yn Un ar 9 Medi 2023.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.18pm

Daeth y cyfarfod i ben am 6.18 pm